


**Y TÎM CEFNOGI AC ARCHEBU  
YMCHWIL:  
EIN RÔL I GYNYDDU CAPASITI YNG  
NGHYMRU  
Gan Lloyd James & Angela Evans**





## Y Tîm Cymorth Ymchwil ac Archebu

- Darparu gwasanaeth gwerthfawr o fewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cefnogi amrywiaeth o astudiaethau o ran sefydlu, agor i recriwtio a dilyniant ledled Cymru.
- Sgiliau a phrofiad amrywiol
- Cymorth buddiol y gallwn ei roi i ddarpar randdeiliaid i gyflawni astudiaethau'n effeithiol ledled Cymru, a'r effaith rydym wedi'i chael hyd yma.



## Cyfranogwyr Ymchwil

***Mae ein systemau a ddyluniwyd yn arbennig yn ein galluogi i reoli apwyntiadau treialon, cyhoeddi diweddariadau a nodiadau atgoffa pwysig, a gweithredu fel pwynt cyswllt penodol ar gyfer pob ymholiad gan gyfranogwyr.***

### **Gallwn gefnogi'r cyfranogwyr trwy :**

- Ddarparu gwasanaeth dibynadwy a chyfeillgar i sicrhau bod prosesau sgrinio ac archebu yn cael eu cwblhau i safon uchel.
- Anfon negeseuon atgoffa testun ac e-bost i sicrhau lefelau uwch o bresenoldeb mewn clinigau a sicrhau bod cyfranogwyr yn cael gwybodaeth allweddol, megis taflenni gwybodaeth, cyfarwyddiadau i leoliad yr astudiaeth a diweddariadau treialon.
- Darparu ymatebion prydlon i ystod o ymholiadau a anfonir i flychau post treial-benodol ac uwchgyfeirio ymholiadau pan fo angen.
- Cynnig cyswllt o bell ond personol i gyfranogwyr.



## Gofal sylfaenol

***Rydym wedi gallu cynyddu capasiti mewn gofal sylfaenol a lleddfu pwysau ar staff practisau meddygon teulu mewn llawer o wahanol ffyrdd:***


- Gweithredu fel y pwynt cyswllt allweddol rhwng Timau Ymchwil, Meddygfeydd a Chyfranogwyr i sicrhau bod astudiaethau'n rhedeg yn effeithlon ac yn llyfn.
- Anfon negeseuon testun i roi cyhoeddusrwydd i astudiaethau iechyd y cyhoedd a chynyddu recriwtio.
- Cysylltu o bell â chyfranogwyr dros y ffôn neu e-bost i sgrinio ar gyfer cymhwysedd neu drefnu apwyntiadau.
- Cysylltu â chyfranogwyr anghymwys cyn apwyntiadau, sy'n atal effeithio ar amser ac adnoddau clinigol cyfyngedig.
- Cynorthwyo astudiaethau gyda chefnogaeth weinyddol o bell, fel Active Brains, PRINCIPLE, a PANORAMIC.

		Practitioner 1			
Day	Date	Start Time	End Time	ID No	App No
Mon	1st	10:00	12:00		
		13:00	16:00	ID 001	p3
Tues	2nd	13:00	14:00	ID 002	2
		15:00	17:00		
Weds	3rd	09:00	12:00	ID 003	4
		13:00	16:00	ID 004	5

## Timau Ymchwil ac Astudiaeth

***Rydym yn cynnig llawer o ffyrdd o gynyddu capasiti ymchwil ar bob cam o astudiaeth trwy:***

- Cofrestru miloedd o gyfranogwyr ar astudiaethau lluosog, gan gynnwys brechlyn COVID-19 pwysig ac astudiaethau therapiwtig, gan gynnwys Principle a LISTEN
- Rheoli a threfnu apwyntiadau astudio, ad-drefniadau neu apwyntiadau dilynol gan ddefnyddio ein System Archebu Apwyntiadau a ddatblygwyd yn arbennig.
- Darparu cyfeiriad e-bost pwrpasol i gysylltu'n uniongyrchol â'r timau astudio, derbyn dogfennau sy'n benodol i'r astudiaeth a delio ag ymholiadau yn brydlon.
- Gallwn hefyd ddarparu gwasanaethau ychwanegol, megis archebu casgliadau swab rheolaidd a danfon pecynnau prawf, neu gysylltu â safleoedd pan fo angen.



## Proses Sefydlu'r Astudiaeth

***Mae ein tîm yn gweithio'n amrywiol ar draws y sefydliad i gynorthwyo gyda phrosesau fel Adnabod Safle a Sganio Gorwelion.***

***Rydym yn cefnogi timau cyflawni ymchwil drwy:***

- Gysylltu ag astudiaethau newydd posibl i helpu i gynyddu cyfleoedd i gyfranogwyr yng Nghymru:
- E-bostio Arweinwyr Arbenigedd ynghylch astudiaethau newydd: Defnyddio eu harbenigedd i nodi Dichonoldeb Safle a Phrif Ymchwilwyr posibl, ar gyfer astudiaethau masnachol ac anfasnachol.
- Symleiddio a lleihau dyblygu yn ystod sefydlu'r astudiaeth “Unwaith i Gymru”:
  - Cylchredeg a choladu Datganiadau o Ddiddordeb
  - Nodi safleoedd arweiniol i adolygu'r costau a'r contractau unwaith
  - Dosbarthu dogfennau allweddol neu'r Pecynnau Gwybodaeth Lleol (LIP) i safleoedd
  - Delio ag ymholiadau yn ganolog



## Cyflawniadau hyd yma:

*Rydym wedi datblygu tîm o gydlynwyr wedi eu hyfforddi'n dda, y mae pob un ohonynt yn dod â'u profiad a'u sgiliau eu hunain i'r tîm, ac mae rhai o'n cyflawniadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynnwys:*

- Cefnogi treialon ac is-astudiaethau lluosog, gan gynnwys astudiaethau brechlyn a thriniaeth Covid-19 mawr ac Astudiaethau Covid.-Hir.
- Rydym wedi anfon neges destun at tua **300,000** o gyfranogwyr ac wedi gwneud tua **4,500** o alwadau ynghylch astudiaethau amrywiol, gan alluogi ymchwilwyr i gyrraedd targedau recriwtio.
- Ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, rydym wedi trefnu tua **3,500** o apwyntiadau.
- Nodi a chysylltu â dros **650** o astudiaethau i gynyddu'r nifer o astudiaethau sydd ar y gweill ledled Cymru.